**Pwyllgor Trwyddedu CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**

Cofnodion cyfarfod rhithwir y Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd ddydd Mawrth, 14 Medi 2021 am 5.00pm.

**Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol - Aelodau'r Pwyllgor Trwyddedu oedd yn bresennol:-**

Y Cynghorydd A Fox (Cadeirydd)

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd D Williams | Y Cynghorydd S Bradwick |
| Y Cynghorydd S Powderhill | Y Cynghorydd T Williams |
| Y Cynghorydd S Morgans | Y Cynghorydd L Jones |
| Y Cynghorydd L Hooper | Y Cynghorydd A Cox |
| Y Cynghorydd G Holmes | |

**Swyddogion yn bresennol:-**

Mr P Nicholls, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Cyfreithiol
Ms R Hope, Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd a Gwasanaethau Rheoleiddio
Mr M Owen, Rheolwr Trwyddedu Cynorthwyol
Mr N Evans, Swyddog Gorfodi Materion Trwyddedu
Cwnstabl J Roberts - Heddlu De Cymru
Ms K Trilloe, Rheolwr Dros Dro Diogelu Iechyd a Thrwyddedu

**Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol oedd yn bresennol:-**

## 44 Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Daeth ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol P Howe yn sgil profi anawsterau technegol a'r Swyddog Ms L Davies, Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a'r Gymuned.

## 45 Datganiadau o Fuddiant

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, ni wnaethpwyd unrhyw ddatganiadau mewn perthynas â'r Agenda.

## 46 Deddf Hawliau Dynol a'r Ddeddf Trosedd ac Anhrefn

**PENDERFYNWYD** nodi pan fydd Aelodau'n ystyried y materion trwyddedu a chofrestru sydd ger eu bron, mae dyletswydd arnyn nhw i beidio â gweithredu mewn modd sy'n anghydnaws â'r confensiwn ar Hawliau Dynol a'r Ddeddf Trosedd ac Anhrefn.

**47** **Cofnodion**

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Gorffennaf 2021 yn rhai cywir.

**48** **Ystyried Trwyddedau a Chofrestriadau a gyhoeddwyd o dan ddarpariaeth pwerau dirprwyedig ar gyfer y cyfnod: 21.06.21 - 29.08.21**

Cyflwynodd Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd a Gwasanaethau Rheoleiddio fanylion trwyddedau a chofrestriadau a gyhoeddwyd yn ystod y cyfnod rhwng 21 Mehefin 2021 a 29 Awst 2021 i'r Aelodau.

**PENDERFYNWYD** nodi'r diweddariad.

**49** **Trafod cadarnhau'r cynnig isod yn benderfyniad:**

**PENDERFYNWYD** bod y cyfarfod hwn yn cadw aelodau o'r wasg ac aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, dan Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd), yn ystod trafod yr agendwm nesaf, ar y sail y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad paragraff 13 o Ran 4 o Atodlen 12A o'r Ddeddf.

**50** **Ystyried y ceisiadau canlynol ar gyfer Trwyddedu a/neu Gofrestru:**

**PENDERFYNWYD** gohirio'r eitem tan y cyfarfod nesaf oherwydd nad oedd yr Ymgeiswyr yn bresennol.

**51** **Trafod y Datganiad o Egwyddor diwygiedig o dan ddarpariaethau'r Ddeddf Gamblo 2005, ar gyfer y cyfnod rhwng 2022 a 2025**

Cyflwynodd Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd a Gwasanaethau Rheoleiddio adroddiad i'r Aelodau sy'n nodi'r Datganiad o Egwyddor diwygiedig, o dan ddarpariaethau'r Ddeddf Gamblo 2005 ar gyfer y cyfnod 2022 - 2025 yn unol â gofynion statudol.

Cynghorodd y Swyddog ei bod hi'n ofyniad statudol i adolygu'r Datganiad o Egwyddor bob tair blynedd ac felly roedd y datganiad cyfredol yn destun adolygiad. Dysgodd yr Aelodau fod y Comisiwn Gamblo wedi nodi yn eu Canllawiau Statudol fformat a chynnwys y Datganiad o Egwyddor, sy'n cael eu hystyried fel y dull mwyaf effeithiol o asesu'r dogfennau polisi a chymharu ar draws yr Awdurdodau Lleol.

Esboniodd y swyddog am gyfnod ymgynghori o 4 wythnos, a ddaeth i ben ar 13 Awst 2021, ac roedd yr Aelodau'n falch o glywed ei fod yn cynnwys gwahanol fathau o gyswllt â phartïon â diddordeb gan gynnwys cyhoeddi hysbysiad ar wefan y Cyngor ac ar y cyfryngau cymdeithasol.

Dywedodd y Cadeirydd pe bai'r Aelodau'n cymeradwyo'r adroddiad, y

byddai'n cael ei gyflwyno i'r Cyngor llawn i'w fabwysiadu naill ai ar 24 Tachwedd 2021 neu 15 Rhagfyr 2021, gyda'r bwriad o'i gyhoeddi erbyn 3 Ionawr 2022.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD**:

- Cymeradwyo'r diwygiadau i'r polisi fel yr argymhellodd Cyfarwyddwr Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymuned;
- Cymeradwyo'r Datganiad o Egwyddor diwygiedig i'r Cyngor i'w fabwysiadu.

**52 Trafod cyflwyno 5 cerbyd hacni Nissan Dynamo nad ydyn nhw'n bodloni safonau Trwyddedu RhCT yn llawn.**

Fe wnaeth Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd a Gwasanaethau Rheoleiddio cyflwyno adroddiad i'r Aelodau yn amlinellu cyflwyno 5 cerbyd Cerbydau Hacni Nissan Dynamo nad ydyn nhw'n cydymffurfio'n llawn ag amodau safonol Trwyddedu RhCT.

Dywedodd y swyddog fod RhCT wedi sicrhau cyllid gan Lywodraeth Cymru i
brynu'r cerbydau hacni Nissan Dynamo trydan sy'n hygyrch i gadeiriau olwyn
yn rhan o gynllun
peilot Cerbydau Gwyrdd sydd wedi'i gyflwyno mewn tri maes ar draws
Cymru ac sy'n ceisio annog y fasnach tacsi i newid i ddefnyddio cerbydau diallyriadau.

Dysgodd yr Aelodau y bydd y cynllun yn caniatáu i yrwyr tacsi roi cynnig ar gerbyd trydan, hygyrch i gadeiriau olwyn am 30 diwrnod am ddim, gan gynnwys gwefru, yswiriant, trwyddedu'r cerbydau ac yswiriant torri i lawr gan Lywodraeth Cymru, ac ar ôl cwblhau'r treial, gofynnir i yrwyr gwblhau arolwg gwerthuso a derbyn gwybodaeth am gynlluniau / cymorth sydd ar gael ar gyfer prynu neu brydlesu cerbydau diallyriadau am gyfnod tymor hir.

Esboniodd y swyddog mai bwriad y cynllun peilot a fydd yn rhedeg am 2-3 blynedd, yw cynorthwyo Llywodraeth Cymru i gyrraedd ei tharged i ddatgarboneiddio tacsis yn gyfan gwbl erbyn 2028 a chyfrannu at helpu gyrwyr tacsi i ystyried buddion ariannol ac amgylcheddol cerbydau diallyriadau ac yn eu tro yn cyfrannu at y newid o gerbydau diesel/petrol i gerbydau diallyriadau. Ymhellach, gofynnwyd am allu hurio cerbydau hacni sy'n rhan o'r cynllun peilot yma i sicrhau bod y fenter yn cael ei hysbysebu ar draws yr ardal ac i annog eraill i fod yn rhan o'r cynllun.

Esboniodd y swyddog, oherwydd polisi RhCT sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r cerbyd gael ei liwio'n ddu i gyd, gofynnir i'r Aelodau drafod a fydd caniatáu i'r brig coch diwygiedig ar y cerbydau prawf yma ddrysu'r cyhoedd, gan y bydd y cynllun yn gweithredu mewn sawl ardal yng

Nghymru ac efallai hefyd yn achosi dryswch os yw sawl awdurdod arall yn trwyddedu cerbydau tebyg. At hynny, cynigir hefyd y bydd yn ofynnol i gerbydau sydd wedi'u trwyddedu o dan y cynllun yma arddangos sticeri drws i ddangos eu bod yn Gerbydau Hacni RhCT.

Trafododd yr Aelodau'r cynllun a gofynnwyd iddyn nhw gydbwyso natur gadarnhaol y treial hwn a'r buddion posibl y bydd yn eu darparu i'r fflyd a buddion iechyd masnach di-garbon yn y dyfodol, yn erbyn y gwyriad dros dro o'r amodau cyfredol ar gyfer y cerbydau hyn.

Yn dilyn trafodaethau, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cerbydau ar gyfer y fflyd ac i ganiatáu'r cerbydau a'u heithrio o orfod bod yn ddu i gyd.

**53 Crynodeb Gorfod (gan gynnwys Data Apeliadau/Erlyniadau) ar gyfer y cyfnod rhwng 26.06.21 a 31.08.21.**

Cyflwynodd Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd a Gwasanaethau Rheoleiddio yr adroddiad yn amlinellu'r gwaith gorfodi diweddaraf, gan gynnwys y diweddaraf am apeliadau ac erlyniadau ar gyfer y cyfnod rhwng 26 Mehefin 2021 a 31 Awst 2021.

**PENDERFYNODD** y Pwyllgor nodi'r diweddariad.

**54 Crynodeb o'r Trwyddedau a gyhoeddwyd o dan Ddarpariaeth Awdurdod Dirprwyedig ar gyfer y cyfnod rhwng 21.06.21 a 29.08.21.**

Rhannodd Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd a Gwasanaethau Rheoleiddio adroddiad â'r Aelodau'n amlinellu'r Trwyddedau a/neu Gofrestriadau a gafodd eu rhoi o dan ddarpariaeth Awdurdod Dirprwyedig ar gyfer y cyfnod 21 Mehefin 2021 i 29 Awst 2021.

**PENDERFYNODD** y Pwyllgor nodi'r diweddariad.

**Daeth y cyfarfod i ben am 5.25pm**

**Y CYNGHORYDD A FOX**
**CADEIRYDD.**